SL(5)262 - Rheoliadau Draenio Cynaliadwy (Gweithdrefn Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn ffurfio rhan o gyfres o offerynnau statudol sy'n ymwneud â systemau draenio cynaliadwy a darpariaethau Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth:

- ar gyfer y weithdrefn mewn perthynas â phenderfyniad cyrff cymeradwyo am geisiadau i gymeradwyo systemau draenio cynaliadwy ac i fabwysiadu systemau draenio o'r fath, a materion ategol; ac
- mewn perthynas â gwaith statudol ar dir cyhoeddus a allai gael effaith ar systemau o'r fath.

Daw y Rheoliadau hyn i rym ar 7 Ionawr 2019.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 13 yn diffinio "ymgymerwr statudol" fel person sydd â hawl i wneud gwaith statudol ar dir cyhoeddus o dan ddarpariaeth deddfiad a restrir yn Rheoliad 16 o'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, nid yw Rheoliad 16 yn rhestru unrhyw ddeddfiadau.

Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Dylai rheoliad 13 gyfeirio at reoliad 14, yn hytrach na rheoliad 16. Gwall teipio yw hwn, ac fe fyddwn yn ei gywiro drwy ddefnyddio slip cywiro.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
29 Hydref 2018